


Bywyd Trwy'r Cyfnod Clo

Yr hyn mae data Cyngor ar Bopeth
yn ei ddweud wrthym am y
flwyddyn
y newidiodd popeth
Mawrth 2021

**cyngor ar
bopeth**



Crynodeb

Sefydlwyd Cyngor ar Bopeth ym mis Medi 1939, wrth i ryfel gael ei gyhoeddi yn Ewrop. Wrth i ni adfer ar ôl pandemig byd-eang sydd wedi'i ddisgrifio fel y prawf anoddaf ers yr Ail Ryfel Byd, mae ein rôl cyn bwysiced yn awr ag ydoedd yr adeg honno.

Ym mlwyddyn gyntaf y pandemig, mae ein cynghorwyr wedi cynnig cyngor personol, annibynnol, rhad ac am ddim i 18 o bobl bob munud. Edrychwyd ar ein cyngor ar-lein 62.8 miliwn o weithiau.

Wrth i'r cyfnodau clo ein rhwystro rhag gweld pobl wyneb yn wyneb, trawsnewidiwyd ein gwasanaeth dros nos. Bu'r trawsnewid hwn yn bosibl oherwydd ymroddiad ein staff a'n gwirfoddolwyr a'r cynnydd roeddem eisoes wedi'i wneud o ran cynnig mwy o gyngor dros y ffôn ac ar-lein yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r data a gasglwyd gennym yn ystod y cyfnod hwn yn cynnig cipolwg unigryw ar y problemau mae pobl wedi'u hwynebu dros y flwyddyn ddiwethaf, a'r ffordd mae'r pandemig wedi effeithio ar eu bywydau. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig golwg sydyn ar rai o'r cipolygon hynny - ac mae'n awgrymu beth allai ddod nesaf.

Cynnwys



Cyflwyniad



Sut mae Cyngor ar Bopeth wedi addasu



Y straeon sy'n deillio o'n data



Beth nesaf?

Cyflwyniad

Mae pandemig y coronafeirws wedi esgor ar chwalfa enfawr yn ein bywydau bob dydd. Mae ein hiechyd, ein gwaith, ein haddysg a'n bywydau cymdeithasol wedi dioddef mewn ffyrdd na chredem eu bod yn bosibl wrth i ni gychwyn ar 2020.

Mae'r sefyllfa wedi effeithio ar bobl mewn gwahanol ffyrdd. Os ydych yn ifanc, yn berson croenliw, mewn swydd ansefydlog neu mewn tŷ rhent preifat, rydych yn llawer mwy tebygol o fod wedi dioddef yn ariannol o ganlyniad i'r argyfwng.

Mae'r sefyllfa wedi effeithio'n fawr ar Cyngor ar Bopeth hefyd. Dros nos bron, bu'n rhaid i ni newid o gynnal gwasanaethau wyneb yn wyneb i'w cynnal dros y ffôn, trwy e-bost a thrwy we-sgyrsiau. Gwelsom gynnydd mawr yn nifer y bobl a oedd yn ceisio cyngor ar ein gwefan - a buom yn diweddarau ein gwefan fwy neu lai yn ddyddiol wrth i reolau'r cyfnodau clo a'r cymorth a oedd ar gael i bobl newid. Buom yn gweithio'n ddiflino i sicrhau bod pawb a oedd angen cyngor yn ystod yr argyfwng cenedlaethol hwn yn gallu cael gafaél arno - waeth pwy oedden nhw na beth oedd eu problem.

Mae'r data a gasglwyd gennym ers y cyfnod clo cyntaf yn adrodd straeon cudd am sut mae pobl ledled Cymru a Lloegr wedi dioddef yn sgil y pandemig. O ganslo gwyliau i brosesau dileu swyddi, mae pobl wedi ceisio cyngor ynglŷn ag amrywiaeth enfawr o broblemau.

Yn aml, rhoddodd hyn rybuddion cynnar i ni ynglŷn â'r materion yr oedd yn rhaid i'r llywodraeth eu datrys ar frys, boed y rheini'n ymwneud â bylchau yn y cynllun ffyrlo neu ddarpariaethau annigonol ar gyfer tâl salwch i bobl a oedd angen hunanynysu.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig cipolwg ar y modd mae ein gwasanaeth wedi newid, yr hyn a awgryma ein data ynglŷn â'r ffordd mae'r pandemig wedi effeithio ar bobl, a beth allai hyn ei olygu ar gyfer y dyfodol.

Byddwn yn parhau i fonitro ein data a thynnu sylw at y problemau a wynebir gan bobl. Er ein bod yn obeithiol ynglŷn â thrywydd y feirws ar hyn o bryd, gwyddom y bydd miliynau ohonom yn gorfod byw gyda'i waddol - gyda grwpiau ar y cyrion a grwpiau dan anfantais yn dioddef fwyaf. Oni chymerir camau, bydd yr adferiad ymhell o



Collodd Desislava, triniwr gwallt 33 oed, ei swydd ym mis Mawrth a gwnaeth gais am Gredyd Cynhwysol. Roedd yn lletywr mewn tŷ rhannu. A hithau heb gynilion, buan iawn y syrthiodd i ddyledion rhent a chafodd ei throï allan.

Fe wnaeth Cyngor ar Bopeth ei helpu i gael grant argyfwng tra'r oedd yn aros i'w chais am Gredyd Cynhwysol gael ei gymeradwyo. Daeth o hyd i fflat newydd a chafodd flaenswm i'w chynorthwyo hyd nes y cafodd ei thaliad llawn cyntaf. Ond bu'r profiad yn ysgytwad iddi.

"Roedd colli fy swydd a 'nghartref yn brofiad ofnadwy. Roeddwn i'n crynu ac yn crio, oherwydd roeddwn i'n ofni y byddai'n rhaid i mi gysgu allan.

"Cyflwynais gais am Gredyd Cynhwysol. Ond pan welais faint y buaswn i'n ei gael, sylweddolais na fyddai gen i ddigon i fyw arno a thalu fy miliau. Yna, rhaid i mi ad-dalu'r blaenswm a gefais dros y flwyddyn nesaf. Dyw £25 y mis ddim yn swnio'n llawer, ond rydw i'n gwybod y bydd yn anodd."

Sut mae Cyngor ar Bopeth wedi addasu

Cyngor a chymorth hyblyg

Cafodd Cyngor ar Bopeth ei sefydlu y diwrnod ar ôl i'r Ail Ryfel Byd gychwyn, a hynny er mwyn helpu pobl gyda phroblemau'n amrywio o fudo i ddogni. Rydym wedi gwneud cynnydd rhyfeddol yn ystod yr 81 mlynedd ers ein sefydlu - o gyflwyno cyngor mewn fan geffylau symudol yn y 1940au, i helpu pobl trwy Snapchat a WhatsApp yn y 2020au.

Er bod cyngor wyneb yn wyneb yn parhau i fod yn rhan ganolog o'n gwasanaeth, yn 2019 edrychwyd ar ein gwefan bron i 52 miliwn o weithiau, ac fe wnaethom helpu 540,000 o bobl dros y ffôn ynghyd â 98,000 o bobl yn ychwaneg trwy we-sgyrsiau. Pan gyhoeddodd y Prif Weinidog y cyfnod clo cyntaf ar 23 Mawrth 2020, roeddem mewn sefyllfa dda i addasu.

Trodd ein rhwydwaith o ganolfannau Cyngor ar Bopeth yn syth at gynnig cyngor yn gyfan gwbl dros y ffôn, trwy e-bost a thrwy we-sgyrsiau. Hefyd trodd ein gwasanaethau cenedlaethol, yn cynnwys y Gwasanaeth i Ddefnyddwyr, y Gwasanaeth i Dystion, y gwasanaeth Pension Wise a'n gwasanaeth Help i Hawlio ar gyfer hawlwyr Credyd Cynhwysol, at gynig cyngor o

Aeth ein 7,000 o gynghorwyr a'n 21,000 o wirfoddolwyr allan o'u ffordd i sicrhau bod pobl yn cael y cyngor angenrheidiol, er gwaethaf yr amgylchiadau dyrys. Boed hynny trwy sefydlu cyfleusterau galwadau fideo mewn llyfrgelloedd lleol ar gyfer pobl heb rynggrwyd yn eu cartref; ffurfio partneriaeth gydag elusennau digartrefedd a banciau bwyd; neu drefnu slotiau rheolaidd ar y radio lleol - mae gan bob canolfan Cyngor ar Bopeth leol straeon di-rif am enghreifftiau anhygoel o ymaddasu a gwytnwch.

Fel sawl sefydliad arall, gwelsom gynnydd enfawr yn y galw am ein gwasanaethau ar ôl i'r pandemig daro. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cynnig cyngor un-i-un i fwy na 2 filiwn o bobl, trwy drefniadau o bell yn y mwyafrif llethol o achosion. Yn 2020, llwyddasom i helpu 77% yn fwy o bobl dros y ffôn, 83% yn fwy trwy we-sgyrsiau, a 41% yn fwy trwy e-bost o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Hefyd, gwelsom gynnydd mawr yn y defnydd o'n gwefan. Ers mis Mawrth, edrychwyd fwy na 6 miliwn o weithiau ar yr wybodaeth sydd gennym ynglŷn â'r coronafeirws ar ein gwefan, a hefyd edrychwyd 62.8 miliwn o weithiau ar ein cyngor hunangymorth ar-lein - bron i 9.6 miliwn yn fwy na'r flwyddyn

Llwyddwyd i gyflawni llawer iawn o'r gwaith hwn diolch i gymorth ychwanegol gan amryw o sefydliadau. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS), Ymddiriedolaeth Trussell, y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS), TSB, Barclays, Grŵp NatWest a Sefydliad JP Morgan Chase.



Newid bywydau

Yn ôl mwy na hanner y bobl a ddaeth atom am help rhwng Medi a Rhagfyr y llynedd, y pandemig oedd wrth wraidd eu problem neu fe effeithiodd y pandemig ar eu problem.

Ar adeg pan welwyd bywyd yn symud fwyfwy ar-lein, dywedodd 1 o bob 5 nad oeddynt yn hyderus wrth ddefnyddio'r rhyngwrwyd, yn cynnwys chwilio am wybodaeth neu lenwi ffurflenni cais ar-lein.

Er gwaethaf yr holl newidiadau i'n gwasanaethau, roedd 9 o bob 10 yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â'u profiad wrth geisio help gan Cyngor ar Bopeth, a dywedodd 7 o bob 10 eu bod wedi cael profiad rhagorol. Dywedodd oddeutu 6 o bob 10 eu bod yn teimlo llai o straen, llai o iselder neu lai o bryder o ganlyniad i'n cyngor.

Edrych tua'r dyfodol


Rydym yn gweithio gyda'n gilydd fel gwasanaeth i ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd yn sgil ein ffyrdd newydd o weithio a sicrhau y gallwn ddiwallu anghenion newidiol unigolion a chymunedau.

Mae hyn yn golygu parhau i ganolbwyntio ar gynyddu cyngor amlsianel, hygyrch, yn unol â'n huchelgeisiau dan ein strategaeth Dyfodol Cyngor, a gyhoeddwyd yn 2019.

Bydd cyngor wyneb yn wyneb yn parhau i fod yn rhan bwysig o'n gwasanaeth, er enghraifft i bobl a chanddynt sgiliau Saesneg cyfyngedig neu i rai sy'n cael trafferth â gwaith papur. Wrth i'r cyfyngiadau lacio, byddwn yn canolbwyntio ar ailgyflwyno gwasanaethau wyneb yn wyneb yn llwyr ar gyfer y rhai mewn gwir angen, ond byddwn hefyd yn parhau â'r cynnydd anhygoel rydym wedi'i wneud o ran cynnig mwy fyth o gyngor ar-lein, dros y ffôn a thrwy e-bost a gwe-sgyrsiau.

Wrth i effeithiau gwaethaf y pandemig gilio, erys y dyfodol yn ansicr. Ond mae un peth yn glir: bydd pobl yn parhau i fod angen cyngor a chymorth i oresgyn eu problemau a'u hatal rhag dwysáu. Mae gwasanaeth Cyngor ar Bopeth, sydd wedi'i ymwreiddio mewn cymunedau ledled Cymru a Lloegr, yn parhau i fod mewn sefyllfa dda i gynnig cyngor annibynnol a dibynadwy er mwyn helpu pobl i ddod o hyd i ffordd ymlaen.

Yr hyn a ddywedodd pobl ynglŷn â'u profiad wrth geisio help gan Cyngor ar Bopeth



Dywedodd mwy na'u hanner mai'r pandemig oedd wrth wraidd eu problem neu fod y pandemig wedi cael effaith ar eu problem



Dywedodd 1 o bob 5 nad oeddynt yn hyderus wrth ddefnyddio'r rhyngwrwyd



Dywedodd 9 o bob 10 eu bod wedi cael profiad cadarnhaol



Dywedodd 7 o bob 10 eu bod wedi cael profiad rhagorol



Roedd 6 o bob 10 yn teimlo llai o straen, llai o iselder neu lai o bryder o ganlyniad i'n cyngor

**Straeon sy'n
deillio o'n data**


Y tu ôl i'r penawdau

Yn y flwyddyn ers i'r pandemig ddechrau, rydym wedi helpu mwy o bobl nag erioed ar draws ein gwasanaeth. Y rheswm mawr wrth wraidd hyn yw'r cynnydd enfawr yn y defnydd o'n gwefan. Yn ystod mis Mawrth 2020, gwelwyd y diwrnod prysuraf, yr wythnos brysuraf a'r mis prysuraf yn hanes gwefan Cyngor ar Bopeth. Hyd yn oed yn ystod y cyfnod cymharol dawel a gafwyd dros yr haf, gwelwyd defnydd cynyddol o'n gwefan, yn bennaf oherwydd ein tudalennau ar y coronafeirws.

Yn ein gwasanaethau cyngori un-i-un, fe wnaethom lwyddo i helpu 2 filiwn o bobl. Cyngor wyneb yn wyneb oedd ein cyfrwng mwyaf cyffredin yn y gorffennol, felly yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud iawn am y golled honno gyda chynnydd mawr mewn cymorth dros y ffôn, trwy we-sgyrsiau a thrwy e-bost.



Edrychwyd ar ein tudalennau cyngor **62.8 miliwn** o weithiau



Edrychwyd ar ein tudalennau coronafeirws **6.6 milliwn** o weithiau



Llwyddwyd i roi help un-i-un i **2 filiwn** o bobl


Ceisio help mewn cyfnod ansicr

Fe wnaeth yr ymateb i'r pandemig amharu llawer ar ein bywydau. Gan fod y sefyllfa'n effeithio ar bawb mewn gwahanol ffyrdd, roedd pobl angen gwybodaeth a chyngor i ddeall beth oedd y cwbl yn ei olygu iddyn nhw.

Gwelsom hyn yn glir trwy'r defnydd a wnaed o'n gwefan. Ar ôl pob cyhoeddiad pwysig gan y llywodraeth ynglŷn â newidiadau i reolau'r cyfnodau clo neu newidiadau i'r cymorth ariannol, trodd pobl at Cyngor ar Bopeth. Mae'n debyg fod llawer o bobl wedi mynd ati i chwilio ar eu ffonau yn ystod y cyhoeddiad.

Dengys y graff hwn y defnydd a wnaed o'n cyngor ar-lein ynglŷn â'r cynllun ffyrlo rhwng 10-12 Mai 2020. Gwelir dau gynnydd mawr - y cyntaf yn syth ar ôl cyhoeddiad y Prif Weinidog ynglŷn â llacio'r cyfyngiadau yn Lloegr, pan chwiliwyd am wybodaeth ynghylch 'gweithio yn ystod covid', 'ffyrlo', 'a allaf symud tŷ', 'trinwyr gwallt', 'gwyliau', 'landlordiaid', ac 'ymweld â'm plentyn'. Ddeuddydd yn ddiweddarach, gwelwyd cynnydd mwy fyth ar ôl i'r canghellor gyhoeddi newidiadau i'r cynllun ffyrlo.


Ymweliadau fesul munud i'r dudalen we 'Coronfeirws - cael eich ffyrlo os na allwch weithio'



Delio â blaenoriaethau anghyson

Gwelsom batrymau tymor hwy yn y defnydd o'n gwefan drwy gydol y flwyddyn. Ar ôl cynnydd cychwynnol yn y defnydd a wnaed o'n gwefan ar ddechrau'r cyfnod clo cyntaf, gwelwyd gostyngiad wedyn yn y defnydd cyffredinol - er ei fod yn uwch nag yn ystod yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo cyntaf lacio, ac wrth i fywydau pobl ddychwelyd at ryw fath o normalrwydd, gwelwyd cynnydd eto yn nifer y bobl a ddefnyddiai ein gwefan. Yn ystod y cyfnod clo, mae'n debygol bod pobl wedi rhoi blaenoriaeth i'w problemau pwysicaf: gyda'r ysgolion ar gau a'r plant gartref, doedd gan rieni mo'r lle na'r amser angenrheidiol i gael help gennym ni. Mae'r patrwm hwn yn debyg i batrymau a welwyd yn ystod gwyliau'r ysgol mewn blynyddoedd blaenorol. Gallwn weld y duedd hon yn dychwelyd yn ystod misoedd cyntaf 2021, gan fod yr ysgolion ar gau unwaith eto.

(Digwyddodd y gostyngiad mawr a welir isod oddeutu cyfnod y Nadolig. Hyd yn oed yn ystod pandemig, cymerodd pobl seibiant haeddiannol oddi wrth eu problemau).



Pob diwrnod yr un fath

Os edrychwn yn fanylach ar ddata ein gwefan yn ystod y cyfnod clo cyntaf, cawn ymdeimlad gwirioneddol o'r modd roedd pobl yn ymdopi.

Fel arfer, gwelwn batrwm gwahanol o ran y tudalennau yr edrychir arnynt yn ystod y penwythnos o gymharu â'r tudalennau yr edrychir arnynt yn ystod yr wythnos. Cyn y pandemig, yn ystod yr wythnos roedd pobl yn tueddu i ganolbwyntio ar broblemau'n ymwneud ag incwm, dyledion a thai. Yn ystod y penwythnos, roeddynt yn meddwl yn y tymor hwy, gan chwilio am gyngor yn ymwneud â'r teulu, ysgaru a llunio ewyllys.

Yn ystod cyfnod clo'r gwanwyn, daeth hyn i ben - gan fod pobl gartref drwy'r adeg, ychydig o wahaniaeth a welwyd rhwng diwrnodau'r wythnos a diwrnodau'r penwythnos.

Roedd pobl yn awyddus i ddelio â'r pryderon uniongyrchol a oedd ganddynt ynglŷn â'r coronafeirws bob diwrnod o'r wythnos. Wrth i'r cyfyngiadau lacio yn ystod yr haf, yn raddol dychwelodd y patrymau at eu trefn arferol. Gyda phobl yn treulio mwy a mwy o amser gartref, gwelsom gynnydd hefyd ym mhoblogrwydd ein tudalennau lle esbonnir sut i gwyno am eich cymdogion - ond dim ond yn ystod y penwythnos.




Tueddiadau cyflogaeth

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rhoddodd ein cyngorwyr gyngor un-i-un i 2 filiwn o bobl – a gwelsant amrywiaeth enfawr o ran y math o gyngor y gofynnwyd amdano. Wrth i'r pandemig gychwyn, gan fynnu bod yn rhaid i bobl hunanwarchod a hunanynysu, gwelwyd cynnydd mawr yn y galw am gyngor cyflogaeth. Roedd ymholiadau'n ymwneud â chyflog a hawliau – sy'n cwmpasu tâl salwch – yn arbennig o gyffredin.


Ymhellach, mae ein data'n dangos yn glir yr effaith a gafwyd ar swyddi. Dros fisoedd yr haf, wrth i bobl golli eu swyddi, gwelwyd nifer fawr o bobl yn ceisio ein help gyda materion yn ymwneud â dileu swyddi, yn cynnwys cyfnodau rhybudd a chwestiynau ynglŷn â thegwch.

Ers hynny, mae'r ddau fater hyn wedi tawelu'n fawr wrth i gyflogwyr a gweithwyr ddeall mwy am eu hawliau a'u cyfrifoldebau, ac wrth i'r don gyntaf o ddiswyddiadau ddod i ben.

Ymweliadau i dudalennau diswyddo wedi cwmpo i ffwrdd ar ôl y Gwanwyn/Haf



Cyngor un i un ar ddiswyddo hefyd wedi gostwng ers y Gwanwyn/Haf



Dryswch ynglŷn â ffyrlo


Mae'r termau chwilio a ddefnyddiodd pobl ar ein gwefan yn rhoi cipolwg i ni ar eu problemau. Bu'r cynllun ffyrlo yn ganolog i ymateb y llywodraeth i'r pandemig, ac mae cyfanswm cronol o 11.2 miliwn o swyddi wedi'u cefnogi ers i'r cynllun gael ei roi ar waith. Dyma rywbeth na wnaethpwyd mohono erioed o'r blaen, ac roedd pobl angen gwybodaeth a fyddai'n eu helpu i'w ddeall. Nid yw'n syndod yn y cyd-destun hwn mai ein cyngor ar-lein ynglŷn â'r cynllun ffyrlo fu'r cynnwys mwyaf poblogaidd drwy gydol y pandemig.

Dengys y siart ar y sleid nesaf sut newidiodd cwestiynau pobl ynglŷn â'r cynllun ffyrlo dros amser. Yn yr wythnosau ar ôl i'r cynllun gael ei gyflwyno, roedd y termau chwilio mwyaf cyffredin yn ymwneud â dileu swyddi tra ar ffyrlo a gweithio tra ar ffyrlo. Ar ddiwedd y cyfnod clo cyntaf, gwelwyd gostyngiad yn nifer yr ymholiadau, a hefyd roedd hi'n amlwg fod pobl bellach yn gyfarwydd â'r cynllun, oherwydd newidiodd y chwiliadau i gwestiynau'n ymwneud â dod o hyd i swyddi eraill tra ar ffyrlo.

Ar ddechrau 2021, wrth i'r cyfnod clo yng Nghymru barhau ac wrth i Loegr ddechrau ar drydydd cyfnod clo - rhywbeth a arweiniodd at gau ysgolion trwy'r ddwy wlad - roedd y cwestiynau y chwiliwyd amdanynt amlaf yn ymwneud â gofyn i gyflogwr am gael mynd ar ffyrlo. Mae hyn yn arwydd posibl o'r pryderon a oedd gan bobl ynglŷn â rheoli eu gwaith tra'n gofalu am eu plant.



Chwiliadau Google (wythnosol) o amgylch 'ffyrlo' a arweiniodd at gliciau ar dudalennau Cyngor ar Bopeth




Heriau ariannol


Cyngor ynghylch dyledion yw un o rannau pwysicaf ein gwasanaeth, ac mae ein cynghorwyr yn helpu cannoedd ar filoedd o bobl bob blwyddyn. Yn ystod cyfnodau cyntaf y pandemig, gwelsom ostyngiad sylweddol yn nifer y bobl a oedd yn troi atom am gymorth ynglŷn â dyledion wrth i'r gwyliau talu a'r mesurau amddiffyn eraill gael eu rhoi ar waith. Newidiodd hynny ym mis Mehefin, pan ddechreuodd y niferoedd gynyddu'n raddol. Mae'n bosibl bod sawl rheswm wrth wraidd hyn, yn cynnwys cynilion pobl yn prnhau ar gyfer talu biliau'r cartref, neu bobl yn methu ag ad-dalu benthyciadau a gymerwyd ar ddechrau'r pandemig.

Datgelir yr heriau ariannol a wynebir gan bobl ar sail y nifer sy'n gofyn am help i gael gafael ar gymorth elusennol neu'r nifer sy'n gofyn am gael eu cyfeirio at fanc bwyd. Er bod y cynnydd mewn cyfeirio pobl at fanciau bwyd i'w esbonio'n rhannol yn sgil partneriaeth newydd rhwng Cyngor ar Bopeth ac Ymddiriedolaeth Trussell, mae'n amlwg nad yw 'rhwyd' y system les yn ddigon eang - naill ai gan nad yw'r arian yn ddigon i dalu costau pobl, neu gan na all pobl gael mynediad ato, er enghraifft os ydynt yn destun cyfyngiadau Dim Mynediad at Arian Cyhoeddus. Mae banciau bwyd a chymorth o fath arall gan elusennau yn parhau i fod yn hanfodol i bobl yn dilyn blwyddyn gythryblus.

Rydym yn gweld pryderon am ddyled ar gynnydd yn ein cyngor un i un




Mae'n amlwg o'n cyngor un i un nad yw rhwyd y system les yn ddigon eang



Pryderon ynghylch Llysoedd

Weithiau, mae ein data'n newid yn gyflym, gan fod yn arwydd o broblemau yn y dyfodol. Er enghraifft, mae achosion o chwilio am Ddyfarniadau Llysoedd Sirol wedi dyblu yn ystod yr wythnosau diwethaf, gyda mwyafrif llethol y bobl yn glanio ar ein tudalen ynghylch Dyfarniadau Llysoedd Sirol a statws credyd. Awgryma hyn fod Dyfarniadau Llysoedd Sirol yn cael eu cyflwyno i nifer cynyddol o bobl am fethu â thalu dyledion wrth i fesurau ar gyfer amddiffyn benthydwyr yr effeithiodd y pandemig arnynt ddirwyn i ben.

Mae chwiliadau Google o amgylch 'Dyfarniadau Llysoedd Sirol' neu 'CCJs' wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod yr wythnosau diwethaf




Pryderon dyfnach


Weithiau, mae ein data'n tynnu sylw at bethau dyfnach ynglŷn â bywydau pobl – ac mae'n amlwg fod y pandemig wedi effeithio ar bobl mewn ffyrdd parhaol. Y gwanwyn diwethaf, wrth i nifer o bobl dreulio mwy o amser gartref, fe wnaeth mwy a mwy o bobl geisio cyngor un-i-un yn ymwneud ag ysgaru. Hefyd, cafwyd cwestiynau ynglŷn â phlant - cwestiynau'n ymwneud yn bennaf â chyswllt gyda rhieni a pherthnasau eraill. Mae hyn wedi parhau drwy gydol y pandemig, er bod y raddfa rywfaint yn is bellach nag a welwyd ar y cychwyn.

Atgoffâd llwm o'r gost ddynol sydd ynghlwm wrth y pandemig yw'r cynnydd mawr a welir yn nifer y bobl sy'n edrych ar ein tudalennau ynglŷn â marwolaethau a llunio ewyllys. Ar ôl cynnydd mawr ar ddechrau ton gyntaf y pandemig, gwelwyd cynnydd mwy fyth yn ystod cyfnod clo'r gaeaf, gan adlewyrchu'r gyfradd farwolaeth uwch sy'n gysylltiedig â'r ail don.

Mae ein cyngor un i un yn dangos sut mae'r pandemig wedi effeithio ar fywydau pobl mewn ffordd di-droi'n ôl



Cynnydd sydyn mewn ymweliadau i dudalennau ar ewyllysiau a chymorth cyfreithiol yn gyfnod clo'r gaeaf



Delio â materion ariannol rhywun sydd wedi marw
 Pwy all etifeddu os nad oes ewyllys-rheolaudiewyllysedd
 Dod o hyd i gymorth cyfreithiol am ddim neu fforddiadwy


Dal drych at gymdeithas

Wrth i'r wlad ddechrau ar y cyfnod clo ym mis Mawrth ac wrth i fywyd arferol ddod i ben dros dro, gwelodd nifer o bobl nad oedd ganddynt ffynhonnell incwm mwyach - er enghraifft, ffotograffwyr priodasau llawrydd heb briodasau i fynd iddynt, neu bobl ar gontractau 'dim oriau' nad oedd y cynllun ffyrlo'n berthnasol iddynt. Fel arwydd o'r graddau y mae'r tueddiadau yn y defnydd o'n gwefan yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd mewn cymdeithas, gwelwyd bod y cynnydd mawr yn nifer y bobl a hawliai Gredyd Cynhwysol yn cyd-fynd â chynnydd yn nifer y bobl a oedd yn edrych ar ein tudalennau Credyd Cynhwysol ar-lein.

Erbyn yr haf, roedd y niferoedd i gyd wedi gostwng i'r lefelau 'arferol' cyn y cyfnod clo, fwy neu lai, ac maent wedi aros felly ers hynny.

1

Ymweliadau a'n tudalennau cynnwys Credyd Cynhwysol, wedi'u tracio yn erbyn hawliad Credyd Cynhwysol




Y bobl sydd angen cymorth

Yn Cyngor ar Bopeth, rydym yn helpu cannoedd ar filoedd o bobl bob blwyddyn i wneud cais am Gredyd Cynhwysol trwy ein gwasanaeth Help i Hawlio, ac mae hyn yn rhoi cipolwg i ni ar y bobl sy'n troi at y system les i gael cymorth. Pan drawodd y pandemig, gwelsom newid amlwg yn y math o bobl a oedd yn ceisio ein cymorth gyda cheisiadau. Yn yr wythnosau yn union cyn ac ar ôl cyhoeddi'r cyfnod clo cyntaf, gwelsom gynnydd o 11% yn y gyfran o fenywod a oedd yn ceisio ein help, ynghyd â chynnydd o 19% yn y gyfran o bobl dan 35 oed, a gostyngiad o 3.7% yn y gyfran o bobl ag anableddau.

Mae sefyllfa waith nodweddiadol y bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol wedi newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda chyfran uwch mewn gwaith ond ar incwm isel. Hefyd, gwelsom gynnydd sylweddol yn nifer y bobl hunangyflogedig a oedd yn gofyn am help gyda hawliadau Credyd Cynhwysol ar ddechrau cyfnod clo'r gwanwyn - gan adlewyrchu, efallai, y bylchau ym mhecyn cymorth y llywodraeth ar gyfer pobl hunangyflogedig.

Gofynnodd cyfran uwch o bobl mewn gwaith am gyngor ar Gredyd Cynhwysol



Demograffeg newidiol

Rydym yn casglu data'n ymwneud ag oedran, rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd y bobl y rhoddwn gymorth un-i-un iddynt. Gyda dyfodiad y pandemig, gwelsom rai newidiadau diddorol yn nodweddion y bobl a ddaeth atom am help.

Yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf, gwelsom ostyngiad yn y gyfran o bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a ddaeth atom am help. Dros amser, mae'r niferoedd hyn wedi dychwelyd, i raddau helaeth, at y lefelau a welwyd cyn y pandemig.

Gwelwyd gostyngiad yn nifer y bobl anabl a ofynnodd am ein help, gan fod asesiadau ar gyfer budd-daliadau anabledd wedi cael eu gohirio dros dro. Mae'r niferoedd hyn wedi cynyddu drachefn wrth i'r asesiadau ailgychwyn.

Ar ddiwedd y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf, gwelsom gynnydd yn nifer y bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a ofynnodd am gyngor ynglŷn â hunanwarchod ac iechyd. Digwyddodd hyn ar ôl gweld cynnydd yn nifer y cleientiaid anabl a ofynnodd am yr un cyngor – mae hyn yn awgrymu bod negeseuon y llywodraeth ynghylch aros yn ddiogel wedi cyrraedd gwahanol grwpiau ar wahanol adegau.

Ar ddechrau'r pandemig, cynyddodd y gyfran o fenywod a phobl ifanc a ofynnodd am ein help, a gwelwyd gostyngiadau cyfatebol ymhlith dynion a phobl hŷn. Mae'r patrwm hwn wedi aros yn gyson drwy gydol y flwyddyn. Gellir egluro'r newid hwn yn bennaf yn sgil ein gwasanaeth Help i Hawlio Credyd Cynhwysol, gyda chyfran uwch o'r hawlwyd bellach yn iau nag yr oeddynt cyn y pandemig, a chyfran uwch ohonynt yn fenywod.

Dim Mynediad at Arian Cyhoeddus

Ymhellach, o ran y bobl y rhoddwn gyngor iddynt, gwelsom gynnydd enfawr yn nifer y bobl nad oedd ganddynt fynediad at arian cyhoeddus (NRPF). Hyd at fis Ionawr 2021, roedd yr amod fisa hwn yn berthnasol i'r rhan fwyaf o fudwyr nad oeddynt yn hanu o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ac nad oeddynt â Chaniatâd Penodol i Aros, a golygai na allai oddeutu 1.4 miliwn o bobl yn y DU gael fynediad at y rhan fwyaf o fudd-daliadau lles. Ers mis Ionawr 2021, mae'r amod hwn yn berthnasol i fisa mudwyr sydd newydd gyrraedd ac sy'n hanu o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd hefyd. Yn ystod 9 mis cyntaf y pandemig, gwelsom gynnydd o 91% o un flwyddyn i'r llall yn lefel y cyngor a roddwyd gennym ynglŷn â Dim Mynediad at Arian Cyhoeddus.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynnig cyngor ar fwy na 10,000 o faterion i fudwyr nad ydynt yn hanu o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd - sef materion yn ymwneud â chael mynediad at fudd-daliadau. Roedd y problemau'n cynnwys methu â fforddio i hunanynysu neu hunanwarchod, ôl-ddyledion rhent a dileu swyddi, gyda phobl heb fynediad at arian cyhoeddus yn fwy tebygol o weithio yn y sectorau a ddioddefodd waethaf yn sgil y pandemig.

Mae hyn yn cael effaith anghymesur ar bobl o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. O blith y bobl a gynorthwywyd gan ein cynghorwyr, roedd 33% yn Asiaidd, roedd 31% yn Ddu ac roedd 15% yn dod o grŵp lleiafrifol arall.



Beth nesaf?

Beth nesaf?

Mae'r ffaith fod brechlyn wedi'i ddatblygu yn golygu y bydd bywyd yn dychwelyd i'r drefn arferol i'r rhan fwyaf o bobl yn ystod y flwyddyn. Eto i gyd, i filiynau o bobl, mae'n bosibl mai megis dechrau mae eu problemau, wrth iddynt barhau i ymlafnio ag effeithiau canlyniadol y pandemig ar yr union adeg mae'r llywodraeth yn dechrau cael gwared â'r mesurau cymorth a roddwyd ar waith.

Gallai hyn gael effaith ddifrifol ar dri maes allweddol:

- Dyled bersonol
- Tai a digartrefedd
- Incwm annigonol

Dyled bersonol

Er bod nifer y bobl a ofynnodd am help gyda phroblemau dyledion wedi gostwng yn ystod misoedd cyntaf y pandemig, yn bennaf oherwydd y mesurau a roddwyd ar waith gan y rheoleiddwyr a'r llywodraeth i ohirio ad-daliadau a dangos amynedd tuag at bobl a oedd yn hwyr yn talu eu biliau, disgwyliwn y bydd y cynnydd yn y galw am gyngor dyledion yn parhau wrth i gynlluniau cymorth ddirwyn i ben.

Bydd hyn yn cynnwys nifer o bobl y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt ac na chawsant broblemau dyledion erioed o'r blaen. Bydd pobl sydd mewn swyddi isel eu cyflog, sydd ar ffyrlo, sy'n byw ar 80% o'u hincwm, ac sydd wedi gwario unrhyw gynilion a oedd ganddynt, yn ei chael hi'n anodd ad-dalu benthyciadau a thalu ôl-ddyledion, hyd yn oed os bydd modd iddynt ddychwelyd i'r gwaith. Ymhellach, bydd pobl hunangyflogedig sydd wedi syrthio trwy'r bylchau yng nghymorth y llywodraeth mewn perygl.

Tai a digartrefedd

Mae ein hymchwil yn dangos graddfa'r broblem. Ym mis Ionawr, roedd hanner miliwn o bobl yn y sector rhentu preifat ar ei hôl hi gyda'u rhenti. Bydd nifer yn cael eu gorfodi i adael eu cartrefi ar ôl i'r mesurau amddiffyn presennol ar gyfer tenantiaid yn y sector rhentu preifat yn Lloegr ddod i ben. Bydd rhai'n cael eu gorfodi i geisio help gan eu cyngor lleol, gan roi baich eithriadol ar gynghorau pan fo cyllidebau'n brinnach o arian nag erioed.

Heb gymorth pellach i rentwyr yn Lloegr, ar ffurf grantiau neu fenthyciadau di-log i helpu pobl i ad-dalu eu dyledion Covid mewn modd tebyg i'r cynllun a geir yng Nghymru, y perygl yw y gwelwn don newydd o broblemau dyledion a digartrefedd. Gallai hyn effeithio'n fawr ar adferiad yr economi ehangach.

Incwm annigonol

Y bwriad yw cael gwared â'r codiad o £20 mewn Credyd Cynhwysol ym mis Medi. Bydd hyn yn gwaethygu'r broblem hon a bydd yn cael effaith ddifrifol am y miliynau o bobl sy'n dibynnu ar y budd-dal. Gyda'r disgwyl y bydd diweithdra'n cyrraedd penllanw o 6.5 miliwn erbyn diwedd 2021, dyma'r amser gwaethaf i gael gwared â chymorth hollbwysig. Ymhellach, mae'r 1.4 miliwn o bobl na allant gael mynediad at arian cyhoeddus (NRPF) mewn sefyllfa ansicr, gyda'r pandemig yn datgelu'r caledi eithafol a all ddeillio o fethu â chael mynediad at 'rwyd achub' budd-daliadau - er bod y bobl dan sylw, yn aml, wedi byw a gweithio yn y DU ers amser maith. Oni chymerir camau i ymdrin â'r broblem hon, yn ôl pob tebyg byddwn yn gweld mwy a mwy o bobl ar y clwt o ganlyniad i bolisi'r llywodraeth mewn perthynas â Dim Mynediad at Arian Cyhoeddus.

Trwy gydol y pandemig hwn, yn briodol ddigon mae'r llywodraeth wedi cynnig cymorth i bobl ar lefel na welwyd mo'i thebyg erioed o'r blaen, ac mae hyn wedi helpu i leihau'r effaith ar filiynau o bobl y mae eu bywydau a'u bywoliaeth wedi dioddef cymaint. Ond tra mae trywydd yr economi, ar y cyfan, yn gadarnhaol yr olwg, gwyddom y bydd gwaddol y pandemig yn parhau. Rydym wedi ymrwmo i weithio gyda'r llywodraeth i bennu problemau a dod o hyd i atebion er mwyn i bobl allu codi ar eu traed unwaith eto cyn gynted â phosibl. Yn y cyfamser, bydd Cyngor ar Bopeth yn parhau i gynnig cymorth a gwybodaeth i bawb sydd mewn angen - ni waeth pwy ydynt na beth yw eu problem.



Cyngor annibynnol o'r radd flaenaf. I bawb, ers 80 mlynedd.

Rydym ni'n rhoi'r wybodaeth a'r hyder angenrheidiol i bobl i ddod o hyd i'w ffordd - waeth pwy ydyn nhw na beth yw eu problem.

Mae ein rhwydwaith o elusennau'n cynnig cyngor cyfrinachol ar-lein, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb, yn rhad ac am ddim.

Gyda'r dystiolaeth iawn, rydym ni'n dangos i gwmnïau ac i'r llywodraeth sut gallan nhw wneud pethau'n well i bobl.



citizensadvice.org.uk

Cyhoeddwyd Mawrth 2021

Cyngor ar Bopeth yw enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol Cyngor ar Bopeth.
Elusen gofrestrdig rhif 279057.